Cofnodion

Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

Dyddiad:	Dydd Gwener, 7 Mehefin 2024
Amser:	10.00 am
Bresennol:	Cynghorwyr P Hourahine (Cadeirydd), L James, S Cocks, J Harris and C Baker-Westhead
Yn bresennol:	Rhys Cornwall (Strategic Director - Transformation and Corporate Centre), Tracy McKim (Head of People, Policy and Transformation), Janice Dent (Policy and Partnership Manager), Joseph Chambers (Welsh Language Officer), Katharine Majer (Deputy Democratic and Electoral Services Manager), Neil Barnett (Swyddog Llywodraethu) and Simon Richards
Ymddiheuriadau:	Cynghorwyr M Linton, D Mayer, M Evans and D Jenkins

1 **Datganiadau o ddiddordeb**

Datganodd y Cynghorydd John Harris mai fe yw Hyrwyddwr Cymraeg y Cyngor.

2 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **26 Ebrill 2024** eu **cadarnhau yn gofnod gwir**.

3 **Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun laith Gymraeg 2023-24**

Gwahoddedigion:
- Rhys Cornwall – Cyfarwyddwr Strategol – Trawsnewid a Chorfforaethol
- Tracy McKim - Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid
- Janice Dent - Rheolwr Partneriaeth a Pholisi
- Joseph Chambers – Swyddog y Gymraeg

Rhoddodd y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid (PPTh) drosolwg, a chyflwynodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaeth yr adroddiad i'r Pwyllgor.

Trafodwyd y canlynol:

- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd yr Eisteddfod a drafodwyd yn yr adroddiad yn ddigwyddiad penodol i Gasnewydd. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor mai Eisteddfod fach oedd hi, digwyddiad Casnewydd a oedd ar wahân i'r Eisteddfod Genedlaethol.

- Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y nifer ecwitïol sy'n dewis y Gymraeg mewn ysgolion yn dilyn materion tebyg a godwyd y llynedd. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai data yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad Addysg Gymraeg i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad - Pobl ond gellid cyfeirio ato yma os dymunir. Dywedodd

y Pwyllgor y bydd siarad Cymraeg yn bwysicach yn y dyfodol, felly mae sicrhau ymgymeriad teg yn hanfodol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor y gallai fod am gysylltu â'r Pwyllgor Craffu Perfformiad - Pobl i ofyn iddo ganolbwyntio ar y nifer sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg wrth graffu ar yr adroddiad Addysg Gymraeg.

- Gofynnodd y Pwyllgor lle gellir dod o hyd i gopïau o Safonau'r Gymraeg y cyfeiriwyd atynt. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod dolenni o fewn yr adroddiad ond y gellir eu darparu ar wahân os oes angen.

- Gofynnodd y Pwyllgor sut y cafodd llwyddiannau eu monitro o fewn y cynllun Iaith Gymraeg 5 mlynedd. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod tablau yn yr adroddiad a oedd yn amlinellu peth o'r data a ddefnyddiwyd, ond y daeth adroddiadau ehangach o ddata'r Cyfrifiad. Dywedwyd wrtho fod nifer y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn cynyddu bob blwyddyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor nad oedd data'r Cyfrifiad yn cynnig darlun cyfan oherwydd, yn ystod y cyfnod rhwng 2011 a 2021, cynyddodd poblogaeth Casnewydd ond gostyngodd cyfran y siaradwyr Cymraeg. Dywedodd fod angen hyrwyddo ymwybyddiaeth a hygyrchedd o ran y Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg i rannau o'r boblogaeth lle nad Cymraeg yw'r iaith frodorol.

- Nododd y Pwyllgor y ffocws ar recriwtio, cadw a datblygu siaradwyr Cymraeg ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, a bod Atodiad 2 yn dangos meysydd sydd angen mwy o ddatblygiad, gyda Chyfarwyddwyr Strategol ar lefel sylfaenol yn unig. Gofynnodd y Pwyllgor am gynlluniau ar gyfer canolbwyntio ar feysydd y Cyngor sydd â'r angen mwyaf. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am gwrs sylfaenol 10 awr ar-lein, gyda ffocws ar feysydd fel Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg oherwydd gofynion. Roedd Swyddog y Gymraeg hefyd yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyflogaeth, fel swyddi sydd ar gael o fewn y Cyngor, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Defnyddir Cymraeg achlysurol yn eang ar draws y sefydliad. Nododd y Rheolwr Polisi a Phartneriaethau fod 4 aelod o staff y ganolfan gyswllt yn siarad Cymraeg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor fod y Prif Swyddog Gweithredol yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ac roedd y Cyfarwyddwr Strategol wedi ymrwymo i ddilyn y cwrs 10 awr. Tynnodd sylw at y ffaith bod y model blaenorol yn heriol i uwch staff oherwydd cyfyngiadau amser, ond bod y model newydd yn fwy hyblyg. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor mai'r Gynhadledd Staff sydd ar ddod fydd yr un ddwyieithog gyntaf. Tynnodd Hyrwyddwr y Gymraeg sylw at bwysigrwydd sicrhau bod dysgwyr yn dod i gysylltiad â'r iaith er mwyn magu hyder.

Sylwadau ac argymhellion

-

- Egluro bod yr Eisteddfod fach sydd wedi'i chynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf yn ddigwyddiad Casnewydd sydd ar wahân i'r Eisteddfod Genedlaethol, ac egluro pwrpas a manteision y fenter hon ar gyfer y gymuned Gymraeg ac addysg Gymraeg yng Nghasnewydd.

- Cynnwys mwy o wybodaeth am y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg fesul gwahanol grwpiau o ddisgyblion, fel canran y disgyblion o wahanol gefndiroedd, ethnigrwydd a galluoedd sy'n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, a'r heriau a'r cyfleoedd i gynyddu'r nifer sy'n ei derbyn.

- Bod yr Ymgynghorydd Craffu yn anfon yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad - Pobl i wahodd adborth ac awgrymiadau ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac i gryfhau'r cysylltiad rhwng y ddau adroddiad

4 **Adroddiad Blynyddol Craffu 2023-24**

Gwahoddedigion:
- Katharine Majer - Dirprwy Reolwr y Gwasanaethau Etholiadol a Democrataidd
- Neil Barnett – Ymgynghorydd Craffu

Rhoddodd Dirprwy Reolwr y Gwasanaethau Etholiadol a Democrataidd drosolwg, a chyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu yr adroddiad i'r Pwyllgor.

Trafodwyd y canlynol:

- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor a oedd yn fodlon ar gywirdeb yr adroddiad a chytunodd y Pwyllgor i hyn.

- Dywedodd y Pwyllgor fod yr adroddiad yn disgrifio rôl y Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu (PRhTCh) i wrando ar farn y cyhoedd a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed drwy ddarlledu cyfarfodydd a darparu cyfeiriad cyswllt. Mynegwyd pryder nad yw hyn yn ddigonol ac y dylai Aelodau Etholedig wneud mwy i gael barn y cyhoedd ar faterion a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor y gall y cyhoedd ofyn am ychwanegu eitemau at agendâu, a fyddai'n cael eu hadolygu am werth o ran eu trafod mewn Pwyllgorau Craffu.

- Dywedodd y Pwyllgor fod trafodaeth debyg ynghylch ymgysylltiad cyhoeddus wedi digwydd yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac awgrymodd ysgrifennu i ofyn a ellid rhoi Gorchymyn Sefydlog ar waith ynghylch cyfarfod â'r cyhoedd dwywaith y flwyddyn. Dywedodd Dirprwy Reolwr y Gwasanaethau Etholiadol a Democrataidd wrth y Pwyllgor fod y Strategaeth Cyfranogiad yn hyrwyddo mynediad at swyddogaeth Graffu'r Cyngor, gan gynnwys gwybodaeth a recordiadau cyfarfodydd. Gwnaed gwelliannau i sianel YouTube y Cyngor i'w gwneud yn fwy hygyrch, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r tîm Cysylltiadau Cyhoeddus i hybu ymgysylltiad cyhoeddus â diweddariadau Craffu ar y cyfryngau cymdeithasol. Cytunodd gyda'r Pwyllgor bod mwy o ymgysylltiad cyhoeddus yn bwysig ac y byddai cynyddu gweledded y swyddogaeth Graffu yn cynorthwyo gyda'r nod hwn.

- Gofynnodd y Pwyllgor am y ffigurau gwylio ar gyfer cyfarfodydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y ffigurau yn yr adroddiad, ond ei bod yn ymddangos mai cyfarfodydd y PRhTCh oedd y rhai mwyaf poblogaidd a bod nifer y bobl sy'n gwylio cyfarfodydd pob Pwyllgor yn cael ei monitro.

- Dywedodd y Pwyllgor fod yr adroddiad yn fanwl ond ei fod yn teimlo ei bod yn anodd cael dealltwriaeth o werth Craffu. Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor fod ei sylwadau a'i argymhellion yn mynd at swyddogion ac Aelodau Cabinet priodol. Dywedodd y byddai monitro canlyniadau'n cael ei ailgyflwyno eleni i ddarparu gwybodaeth am ba argymhellion a gymerwyd neu'r rhesymau os na chymerwyd unrhyw rai.

- Dywedodd y Pwyllgor fod strwythur y Cyngor, gan gynnwys swyddogaethau Craffu, yn cael ei osod gan y Senedd, gan gyfyngu hyblygrwydd ar fathau o Bwyllgorau

Craffu, ond bod rheolaeth yn bodoli dros yr hyn sy'n cael ei gyflwyno i Bwyllgorau. Gofynnodd y Pwyllgor a allai swyddogion edrych ar swyddogaethau Craffu awdurdodau cyfagos i gael gwybodaeth ddefnyddiol. Dywedodd Dirprwy Reolwr y Gwasanaethau Etholiadol a Democrataidd wrth y Pwyllgor, er bod Craffu yn swyddogaeth statudol, fod amrywiad ar sut mae'r pwyllgorau yn cael eu sefydlu mewn gwahanol awdurdodau. Cytunodd fod adolygiad cymheiriaid yn offeryn defnyddiol ac yn un y gwnaeth y tîm gymryd rhan ynddo'n rheolaidd.

- Tynnodd y Pwyllgor sylw at y Grŵp Adolygu Polisi diweddar fel enghraifft wych o waith craffu effeithiol, gyda chanlyniadau clir, gan fod canfyddiadau'r grŵp wedi'u derbyn gan y Cabinet ac roedd gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd yn dilyn yr argymhellion.

Sylwadau ac argymhellion

-

- Gwella ymgysylltiad cyhoeddus â'r swyddogaeth Graffu a'i gweledded ac ystyried gwahanol ffyrdd o gael adborth gan y cyhoedd ar wasanaethau a pherfformiad y Cyngor.

- Adolygu strwythur y pwyllgor a'i gymharu â chynghorau eraill i weld a oes unrhyw arferion neu wersi gorau i'w dysgu.

- Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod monitro canlyniadau'n cael ei gyflwyno fel y gellir rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar ba argymhellion sydd wedi'u hystyried, neu resymau pam nad ydynt wedi'u hystyried, gan y bydd hyn yn helpu'r Pwyllgor i werthuso effaith ac effeithiolrwydd eu gwaith Craffu a dilyn unrhyw gamau gweithredu sy'n weddill.

5 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Gwahoddedig:
- Neil Barnett – Ymgynghorydd Craffu

a. **Materion yn Codi**

Nododd yr Ymgynghorydd Craffu fod y camau gweithredu sy'n weddill mewn perthynas ag Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol 2023-24 wedi cael eu canlyn gyda'r Pennaeth Diogelu.

- **Blaenraglen Waith Flynyddol 2024-25, Fersiwn Ddrafft**

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu y Flaenraglen Waith Ddrafft i'w hystyried ac amlinellodd ddyddiadau cyfarfodydd a'r eitemau agenda arfaethedig. Nododd y Cadeirydd y gofynnwyd iddo fynychu Bargen Dinas-ranbarth Caerdydd ar 27 Medi 2024 felly hoffai gadw'r dyddiad hwnnw'n rhydd.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.49 am